



Heddlu Police

**DYFED-POWYS**

## **GWRANDAWIADAU CAMYMDDWYN CYHOEDDUS**

### **Amodau mynediad ar gyfer y Cyhoedd a'r Wasg**

#### **Cyflwyniad**

Mae Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygiad) 2015 yn cyfarwyddo y bydd gwrandawiaid achos arbennig yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, yn amodol ar ddisgresiwn y person sy'n cadeirio neu'n cynnal y gwrandawiad i eithrio unrhyw berson o'r gwrandawiad cyfan, neu ran ohono.

Caiff unrhyw aelod o'r wasg neu'r cyhoedd sy'n dymuno mynychu'r gwrandawiad camymddwyn wneud hynny, ond oherwydd cyfyngiadau o ran lle a chapasiti, bydd presenoldeb yn y gwrandawiad yn cael ei weinyddu a'i archebu drwy Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys.

Bydd gwrandawiaid fel arfer yn cael eu cynnal ym Mhencadlys yr Heddlu, Caerfyrddin, a bydd yr amodau mynediad canlynol yn berthnasol:

#### **Ceisiadau i fynychu gwrandawiad**

- Bydd angen i aelodau o'r cyhoedd neu'r wasg sydd eisiau mynychu gwrandawiad wneud cais ymlaen llaw. Ni chaniateir mynediad i unrhyw un sydd heb wneud cais ymlaen llaw.
- Wrth wneud cais i fynychu gwrandawiad, rhaid i chi nodi pa wrandawiaid rydych chi eisiau'u mynychu a'r diwrnod(au) fyddwch chi'n bresennol.
- Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion diogelwch yn unig:
  - a) Eich enw llawn
  - b) Eich cyfeiriad
  - c) Eich manylion cyswllt
- Rhaid derbyn ceisiadau cyn y dyddiad cau, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Heddlu Dyfed-Powys. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu hystyried, ac ni chaniateir mynediad i'r gwrandawiad.
- Bydd aelodau o'r cyhoedd neu'r wasg sy'n mynychu'r gwrandawiad yn talu eu costau eu hun.
- Bydd unrhyw un sy'n ymddwyn mewn modd sy'n debygol o darfu ar y gweithdrefnau'n cael ei eithrio.

## Diogelwch

- Ar ddiwrnod y gwrandawriad, disgwylir i chi ddarparu'ch e-bost cadarnhad, ynghyd â phrawf adnabod ffotograffig ategol (megis pasbort neu drwydded yrru) a phrawf o'ch cyfeiriad (megis bil cyfleustodau diweddar).
- Gall aelodau o'r cyhoedd a'r wasg, ynghyd ag unrhyw fagiau, fod yn destun gwiriad diogelwch fel un o'r amodau mynediad, neu ailfyndiad. Ni chaniateir llafnau neu wrthrychau miniog. Bydd yr heddlu'n cadw'r hawl i atafaelu unrhyw eitem maen nhw'n canfod wrth chwilio a allai achosi niwed i unrhyw berson.
- Disgwylir i chi fewngofnodi ac allgofnodi wrth gyrraedd neu wrth adael Pencadlys yr Heddlu.
- Byddwch chi'n derbyn bathodyn Ymwelydd, a rhaid ei wisgo bob amser.
- Bydd aelodau o'r cyhoedd a'r wasg yn cael eu cyfarwyddo gan Heddlu Dyfed-Powys neu staff diogelwch, a byddant yn eu cwmni bob amser.
- Ni chewch ddod â chamerau i mewn i'r adeilad. Ni chewch weithredu swyddogaethau camera ar ddyfeisiau eraill, ac ni chaniateir tynnu lluniau unrhyw le ar y safle.

## Presenoldeb yn y gwrandawriad

- Bydd aelodau o'r cyhoedd a'r wasg yn gwyllo'r gweithdrefnau mewn ystafell wyllo gyhoeddus drwy gyswllt fideo byw.
- Gofynnir i chi gyrraedd y brif dderbynfa ym Mhencadlys yr Heddlu 15 munud o leiaf cyn i'r gweithdrefnau gychwyn. Bydd hyn yn caniatáu amser ar gyfer chwilio unigolion, eu tywys i'r ystafell wyllo gyhoeddus, ac yn rhoi amser iddynt eistedd. Efallai na fydd unigolion sy'n cyrraedd yn gwyr yn cael mynediad. (Bydd amserau cychwyn yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw ar wefan Heddlu Dyfed-Powys).
- Gellir cadw ffonau symudol a dyfeisiau eraill, ond rhaid eu diffodd yn ystod y gwrandawriad.
- Os fyddwch chi eisiau gadael ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawriad, bydd aelod staff yn eich tywys hyd nes eich bod chi wedi gadael y safle.
- Yn ystod y gweithdrefnau, gall fod angen gohirio'r gwrandawriad. Bydd Cadeirydd y Panel yn cyhoeddi'r gohiriad, a'r rheswm, ac os yn bosibl, yr amser y bydd y gwrandawriad yn ailgychwyn. Yn ystod gohiriadau, ac eithrio ar gyfer cinio, dylai aelodau o'r cyhoedd a'r wasg aros yn yr ystafell wrando gyhoeddus.
- Bydd y gwrandawriad yn stopio ar gyfer cinio ar adeg gyfleus yn ystod y gweithdrefnau. Bydd Cadeirydd y Panel yn cyhoeddi amser ar gyfer dychwelyd i ailgychwyn y gweithdrefnau. Yn ystod amser cinio, disgwylir i'r rhai sy'n bresennol aros yn yr ystafell wrando gyhoeddus, neu adael y safle.
- Os yw Cadeirydd y Panel yn penderfynu na ddylid datgelu tystiolaeth a roddir gan dyst neu unrhyw berson arall yn gyhoeddus, ni fydd unrhyw beth yn ymddangos ar y sgrin hyd nes y bydd y dystiolaeth honno wedi'i rhoi.

## Cyfleusterau

- **Parcio** – Nifer cyfyngedig o lefydd parcio sydd ar gael, a byddant yn cael eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin. Ni ellir sicrhau lle parcio ym Mhencadlys yr Heddlu.
- **Lluniaeth** – Disgwylir i aelodau'r cyhoedd wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cinio a lluniaeth. Ni ddarperir mynediad i aelodau'r cyhoedd brynu bwyd yn yr adeilad. Darperir dŵr yn yr ystafell drwy gydol y dydd.
- **Toiledau** – Mae cyfleusterau toiled ar gael. Darperir toiledau ar gyfer pobl anabl hefyd. Bydd pawb sy'n bresennol yn cael eu tywys i du allan i'r cyfleusterau tolied.
- **Mynediad i Bobl Anabl** – Mae mynediad llawn ar gyfer pobl anabl i'r ystafell wrando gyhoeddus. Mae nifer cyfyngedig o lefydd parcio ar gael ar gyfer pobl anabl, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw. Os oes gofynion mynediad gan unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg, dylent hysbysu'r Adran Safonau Proffesiynol wrth wneud cais.
- **Iechyd a Diogelwch** – Bydd y rhai sy'n bresennol yn derbyn gwybodaeth am iechyd a diogelwch cyn i'r gweithdrefnau gychwyn.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

- Mae'r rheoliadau'n dweud y gall Cadeirydd y gweithdrefnau hefyd osod amodau mynediad pellach yn ogystal â'r rhai a nodir yn y ddogfen hon. Os digwydd hyn, bydd yr amodau pellach yn cael eu cyhoeddi ar y wefan cyn y gwrandawriad, neu'n cael eu cyhoeddi gan y Cadeirydd ar ddechrau, neu yn ystod, y gweithdrefnau.

**Gall methu â chydymffurfio â'r amodau uchod arwain at wrthod mynediad i'r safle i aeloda o'r wasg neu'r cyhoedd, neu ofyn iddynt adael y safle.**